

Adolygiadau o farcio – marciau a asesir gan y ganolfan (Gwaith cwrs TAG, asesiadau di-arholiad TAG a TGAU, cymwysterau Project)

Templed a awgrymir i ganolfannau

Mae **[Enw'r Ganolfan]** wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith ymgeiswyr yn cael ei farcio'n deg, yn gyson ac yn unol â manyleb a dogfennau cysylltiedig pwnc-benodol y corff dyfarnu pan fo staff y ganolfan yn marcio.

Bydd gwaith ymgeiswyr yn cael ei farcio gan staff sydd â'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau priodol, ac sydd wedi'u hyfforddi yn y gweithgaredd hwn. Mae **[Enw'r Ganolfan]** wedi ymrwymo i sicrhau bod gwaith a gynhyrchir gan ymgeiswyr wedi'i ddilysu yn unol â gofynion y corff dyfarnu. Lle bo nifer o athrawon pwnc yn ymwneud â marcio gwaith ymgeiswyr, bydd cymedroli a safoni mewnol yn sicrhau cysondeb y marcio.

1. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn sicrhau ei bod yn hysbysu ymgeiswyr am eu marciau a asesir gan y ganolfan er mwyn iddyn nhw allu gwneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan cyn cyflwyno'r marciau i'r corff dyfarnu.
2. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn hysbysu ymgeiswyr y gallan nhw wneud cais am gopiâu o'r deunyddiau i'w cynorthwyo wrth ystyried p'un a ydyn nhw am wneud cais am adolygiad o farcio'r ganolfan o'r asesiad.
3. Bydd **[Enw'r Ganolfan]**, ar ôl derbyn cais am ddeunyddiau, yn sicrhau eu bod ar gael i ymgeiswyr heb oedi, naill ai'r dogfennau gwreiddiol wedi'u dangos o dan amodau dan oruchwyliaeth neu gopiâu.
4. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn rhoi digon o amser i ymgeiswyr, o leiaf pum niwrnod gwaith fel arfer, er mwyn caniatáu iddynt fwrw golwg dros gopiâu o ddeunyddiau a dod i benderfyniad.
5. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn darparu dyddiad cau clir i ymgeiswyr gyflwyno cais am adolygiad o farcio'r ganolfan. Ni fydd ceisiadau ar ôl y dyddiad cau hwn yn cael eu derbyn. **Rhaid** i geisiadau fod ar bapur.
6. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn caniatáu digon o amser i gynnal yr adolygiad, er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r marcio ac i roi gwybod i'r ymgeisydd am y canlyniad, cyn terfyn amser y corff dyfarnu.
7. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn sicrhau bod yr adolygiad o'r marcio yn cael ei gynnal gan aseswr sydd â chymhwysedd priodol, heb ymwneud ag asesu'r ymgeisydd hwnnw yn yr uned dan sylw yn y gorffennol a heb unrhyw fudd personol yng nghanlyniad yn yr adolygiad.

8. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn hyfforddi'r adolygwr i sicrhau bod marc yr ymgeisydd yn gyson â'r safon a osodir gan y ganolfan.
9. Bydd **[Enw'r Ganolfan]** yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd ar bapur am ganlyniad yr adolygiad o farcio'r ganolfan.
10. Bydd pennaeth y ganolfan yn cael ei hysbysu am ganlyniad adolygiad o farcio'r ganolfan. Bydd cofnod ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei gadw a bydd ar gael i'r corff dyfarnu os gofynnir amdano.

Gallai'r broses gymedroli a gynhelir gan y cyrff dyfarnu arwain at newid marc, naill ai i fyny neu i lawr, hyd yn oed ar ôl adolygiad mewnol. Mae'r broses adolygu fewnol ar waith er mwyn sicrhau cysondeb marcio yn y ganolfan, tra bod cymedroli gan y corff dyfarnu yn sicrhau bod marcio'r ganolfan yn unol â safonau cenedlaethol. Gallai'r marc a gyflwynwyd i'r corff dyfarnu newid ac felly dylid ei ystyried yn farc dros dro.